# Symudiad Rheolwyr

**Dyma rai enghreifftiau o achosion lle fyddai ymgeisydd yn cael ei ystyried ar gyfer Symudiad Rheolwyr:-**

- Ymgeisydd sy'n cael ei adael yn byw mewn tŷ yn dilyn marwolaeth tenant

**Os bydd tenant diogel, rhagarweiniol, isradd yn marw ac nad oes yna aelod arall o'r teulu ar ôl yn y tŷ sydd â'r hawl i'w olynu, mae'n bosibl yr ystyrir rheoli symud os:-**

- Mai'r eiddo oedd unig neu brif gartref yr aelod arall o'r teulu oedd ar ôl adeg marwolaeth y tenant a byddent wedi bod yn gymwys i olynu os nad oedd olyniad wedi digwydd eisoes.
- Mae'r ymgeisydd wedi bod yn byw'n barhaol gyda'r tenant fel aelod o'u teulu am o leiaf blwyddyn cyn i'r tenant farw.
- Mae'r ymgeisydd wedi cytuno i gymryd drosodd cyfrifoldeb rhianta dros ddibynyddion y tenant ac nid oes ganddynt unrhyw lety arall addas ar gael.

## Perthynas yn Chwalu

Os bydd tenantiaeth un person neu ar y cyd yn rhoi rhybudd i derfynu tenantiaeth, mae'n bosibl y bydd y Cyngor yn caniatáu tenantiaeth i'r preswylydd sy'n weddill, cyn belled â'u bod wedi byw gyda'r cyn denant fel partner, neu aelod o'u teulu, yr eiddo yw'r unig neu'r prif gartref sydd ganddynt ac mae'n addas i'w hanghenion.

Os yw cyd-dentantiaid yn gyplau priod, partneriaid sifil neu gyplau gyda phlant, mae gan y Llys y grym i benderfynu trosglwyddo tenantiaeth i'r naill neu'r llall, os oes anghydfod. Bydd staff yn cynghori ymgeiswyr i geisio cymorth cyfreithiol i ddechrau yn yr amgylchiadau hyn.

Dylai ymgeiswyr ar y cyd fod yn ymwybodol y gall unrhyw gostau llys i ddiweddu tenantiaeth ar y cyd fod yn gyfrifoldeb y sawl dan sylw.

## Amgylchiadau eithriadol

**Gall staff hefyd ystyried Rheoli Symudiadau yn yr amgylchiadau canlynol. Nid yw'r rhestr hon yn gyflawn.**

- Mae'r Gwasanaethau Cymdeithasol wedi cynnal asesiad statudol ac mae yna blentyn mewn perygl yn y tŷ
- Mae'r Gwasanaethau Cymdeithasol wedi cynnal asesiad statudol ac mae yna oedolyn mewn perygl yn y tŷ
- Mae'r ymgeisydd mewn llety clwm gan y Cyngor ac angen tŷ diogel (e.e. gweithiwr y Cyngor sy'n ymddeol)
- Tenant presennol y Cyngor wedi'i roi mewn llety dros dro yn dilyn tân neu lifogydd sydd wedi golygu nad ydynt yn gallu byw yn eu tŷ eu hunain.
- Tenantiaid presennol Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam sydd angen symud oherwydd bod eu tŷ ar fin cael ei ddymchwel, ei ailddatblygu neu waith sylweddol yn cael ei wneud arno.
- Cartrefu rhai unigolion sy'n dod o fewn y protocol MAPPA. Bydd y dyraniadau hyn yn cael eu gwneud yn unol â chynllun MAPPA ar wahân.

**Wrth benderfynu dyfarnu Rheoli Symudiad ai peidio, ymysg ystyriaethau eraill, gall Uwch Swyddogion ystyried y canlynol:-**

- A fydd caniatáu'r denantiaeth yn gwneud y defnydd gorau o'r stoc dai?
- A yw ymddygiad yr ymgeisydd wedi achosi i'r denantiaeth unigol neu cyd-denantiaeth presennol adael yr eiddo? (e.e. a fu materion ariannol/cam-drin domestig)
- A yw'r ymgeisydd yn gymwys i ddyraniad?
- Amgylchiadau pob achos unigol (band blaenoriaeth a ddyfernir iddynt ar y gofrestr dai, ers faint mae'r ymgeisydd wedi byw gyda'r tenant, a yw'n rhesymol i'r ymgeisydd barhau i fyw yn yr eiddo dan sylw?)
- A yw'r ymgeisydd yn dod o fewn protocol MAPPA?